WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

H Jakeway
Prif Swyddog Tân
Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Pencadlys
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 8 Hydref 2013 |
| **Ein cyfeirnod** | 547A2013 |
| **Rhif Ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | walesauditoffice@wao.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **10** |

Annwyl Huw

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys:
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf;
  - cynnydd yr Awdurdod mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Ionawr 2014.

## Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Cafodd y Cynllun Gwella ei gyhoeddi yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru (i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2013 ar gyfer amcanion gwella 2013-14) ar ffurf electronig.
- Mae'r Awdurdod wedi rhoi esboniad clir o pam y dewiswyd ei ddau amcan gwella ar gyfer 2013-14. Mae'r ddau amcan gwella fel a ganlyn:
  - lleihau achosion o gynnau tân yn fwriadol 41 y cant yn ystod y pum mlynedd nesaf gan ddefnyddio canlyniadau 2010-11 fel llinell sylfaen;
  - ymgysylltu â'n cymunedau er mwyn nodi eu blaenoriaethau cymunedol a blaenoriaethau busnesau lleol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gennym yn y dyfodol.
- Nodir canlyniadau ar gyfer y ddau amcan gwella er bod yr Awdurdod yn parhau i fireinio'r canlyniadau ar gyfer yr ail amcan gwella wrth i gynllun y prosiect gael ei ddatblygu.
- Caiff y camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r gwelliannau arfaethedig eu disgrifio gan ddefnyddio mesurau ansoddol a meintiol er mwyn pennu cynnydd. Fodd bynnag, nid yw manylion yr ail amcan gwella wedi'u datblygu cystal.
- Ymgynghorodd yr Awdurdod ar ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 rhwng 31 Hydref 2012 a 31 Rhagfyr 2012. Er bod mwy o bobl wedi ymateb na'r nifer a ymatebodd mewn blynyddoedd blaenorol (pump y llynedd o gymharu â 15 eleni), mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen gwella trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Ym mis Awst 2012, gwnaethom gynnwys pedwar cynnig ar gyfer gwella yn ein hadolygiad o drefniadau ymgysylltu â'r cyhoedd yr Awdurdod a chaiff y rhain eu datblygu fel rhan o waith yr Awdurdod i fonitro ei amcan gwella eleni. Mae'r Awdurdod yn ystyried atgyfnerthu capasiti'r tîm sy'n gyfrifol am ymgynghori ac ymgysylltu ac mae'n ystyried secondiad allanol ac ad-drefnu mewnol er mwyn cyflawni hyn.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, credaf fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

### Mae trefniadau cynllunio busnes wedi ymsefydlu'n dda, yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ond mae angen iddynt adlewyrchu gofynion Deddf Cydraddoldeb newydd 2010 yn well drwy gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ei Gynlluniau Gwella

Nodais, yn fy asesiadau blaenorol, fod arweinwyr yr Awdurdod yn parhau i lywio newid a dyma yw fy marn o hyd. Mae'r broses ailstrwythuro ddiweddar wedi darparu eglurder o ran cyfrifoldebau, yn enwedig o ran rheoli perfformiad ac ymgysylltu. Mae staff yn ymwybodol o'r amcanion gwella ar gyfer 2013-14 ac maent yn cefnogi'r rhesymeg dros bennu'r amcanion. Fodd bynnag, prin fu'r gwaith ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r staff wrth ddatblygu'r amcanion gwella. Cytunodd yr Uwch Dîm Rheoli ar yr amcanion ac fe'i cymeradwywyd gan yr Aelodau.

Yn fy *Adroddiad Gwella Blynyddol* diweddaraf (Mawrth 2013), deuthum i'r casgliad fod yr Awdurdod, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi cymryd camau cadarnhaol i roi cyhoeddusrwydd i argaeledd ei Gynllun Gwella Strategol, ond mae'n dibynnu i raddau helaeth ar y fformat electronig a gall mynediad ehangach i'r data fod yn broblem i rai pobl. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'i Gynllun Gwella ar gyfer 2012-14, sy'n parhau i fod ar ffurf electronig (er bod copïau caled ar gael ar gais), defnyddiodd yr Awdurdod gyfryngau cymdeithasol megis twitter a facebook ac mae wedi cyflwyno dogfen gryno (ar ffurf papur newydd byr) sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod ac a gaiff ei ddosbarthu i lyfrgelloedd, meddygfeydd a lleoliadau cyhoeddus eraill.

Yn ystod 2012-13, newidiodd yr Awdurdod ei ddull o gyflwyno adroddiadau i aelodau i gynnwys sylwebaeth benodol ar gynnydd yn erbyn amcanion gwella. Fodd bynnag, nid yw'r sylwebaeth yn nodi'n benodol p'un a yw'r Awdurdod ar y trywydd cywir i gyflawni ei amcanion gwella. Mae'r adroddiadau newydd yn canolbwyntio ar y camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion gwella ond nid ydynt yn tynnu'r mesurau a'r camau gweithredu arfaethedig ynghyd i roi darlun cydlynus o'r cynnydd hyd yn hyn. Gellid atgyfnerthu'r adroddiadau drwy:

- gynnwys mesurau perthnasol er mwyn rhoi darlun cytbwys o'r cynnydd ar gyfer pob amcan gwella;
- byddai defnyddio meini prawf statws RAG cyson ymhob adroddiad yn ei gwneud hi'n haws deall y meini prawf statws 'goleuadau traffig' (RAG);
- sicrhau bod yr adroddiadau yn cynnwys sylwadau penodol o ran p'un a yw'r Awdurdod ar y trywydd cywir i gyflawni ei amcanion gwella ai peidio.

Mae'r Awdurdod wedi nodi tua 200 o fesurau y mae'n bwriadu eu defnyddio wrth gyflwyno adroddiadau i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn amcanion gwella er mwyn pennu cynnydd yn erbyn cynlluniau busnes adrannau unigol. O ran yr amcan gwella cyntaf ar gyfer 2013-14 (sy'n ymwneud â chynnau tanau yn fwriadol), nodwyd tua 50 o fesurau y gellid eu cynnwys yn yr Adroddiad a'u defnyddio i fesur cynnydd. Mae sail tystiolaeth glir ar gael, o'r wybodaeth llinell sylfaen am ddiogelwch tân yn y gymuned a chynlluniau rheoli risgiau cymunedol, i ategu'r amcan o fynd i'r afael ag achosion o gynnau tân yn fwriadol fel blaenoriaeth. Mae'r Awdurdod hefyd wedi nodi'n amlwg bwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned fel rhan annatod o'r broses o leihau nifer yr achosion o gynnau tân yn fwriadol.

Mae tua 15 o fesurau yn ymwneud ag amcan gwella dau (ymgysylltu â'r gymuned) ond er y caiff rhai mesurau eu datgan, mewnbynnau ydynt yn hytrach na chanolbwyntio ar ganlyniadau i'r gymuned. Wrth iddo egluro sut y bydd yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu'r mesurau a mireinio ei drefniadau adrodd yn briodol.

Ni chynhaliodd yr Awdurdod Asesiadau cadarn o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r rhesymeg dros ddewis yr amcanion gwella ar gyfer 2013-14 ac felly, nid yw'n eglur p'un a yw'r amcanion yn adlewyrchu anghenion y bobl hynny â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ddigonol. Mae prosesau mewnol o fewn y system rheoli perfformiad yn cynnwys sgrîn atgoffa sy'n gofyn i'r staff a oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, ond nid yw'r broses gyffredinol yn ddigon eglur i sicrhau bod canllawiau Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi'u dilyn. Nid oes unrhyw gyfeiriad at Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn yr adran ar Strategaethau Ategol yng Nghynllun Gwella 2013-14 ac nid oes adran benodol yn nodi manylion am sut y mae'r amcanion yn ystyried anghenion y rheini â nodweddion gwarchodedig. Mae'r Awdurdod yn bwriadu cynnal Asesiadau cadarn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth bennu ei Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15.

## Mae'r Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol, ond mae maint y newid sydd ei angen yn golygu y bydd angen arweiniad a chyfeiriad clir o hyd

Mae'r Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol. Mae ganddo Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gadarn ar waith ac mae'n cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r aelodau am y sefyllfa ariannol. Mae angen i'r awdurdod gyflawni arbedion cronnol arfaethedig o £9.522 miliwn yn ystod y rhagolwg ariannol tair blynedd hyd at ddiwedd 2014-15; hyd yn hyn, mae ganddo gofnod cadarnhaol o gynnal nifer o brosiectau trawsnewid sydd wedi arwain at achosion o danwario wedi'u rheoli o tua £3 miliwn ar gyfer blynyddoedd ariannol 2011-12 a 2012-13. Mae hyn wedi galluogi'r Awdurdod i ddechrau rhai agweddau ar ei raglen gyfalaf yn gynt, gan gynnwys adeiladu gorsaf newydd.

Mae angen i ddull rheoli ariannol yr Awdurdod sicrhau ei fod yn parhau i reoli unrhyw amrywiadau parhaus o ran achosion o danwario a rhoi gwybod amdanynt er mwyn galluogi aelodau i fod yn eglur ynghylch graddau'r heriau ariannol. Mae'r ffaith ei fod yn gweithredu o fewn cyllideb fantoledig a'i fod wedi cynhyrchu tanwariant yn 2012-13 yn galluogi'r Awdurdod i gynnal gofyniad ariannu sefydlog wrth symud ymlaen gan osgoi amrywiadau mawr yng nghyllid y cynghorau perthnasol. Gan fod yr Awdurdod yn drist iawn, wedi colli ei Drysorydd yn ddiweddar, mae'r Awdurdod yn wynebu her wrth ddod o hyd i rywun o galibr a gallu tebyg.

Mae'r fersiwn gyhoeddedig bresennol o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld cyllideb fantoledig ar gyfer 2013-14, diffyg bach ar gyfer 2014-15 a diffyg o tua £1 filiwn ar gyfer 2015-16. Caiff y Strategaeth ei diweddaru fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer pennu cyllideb 2014-15, wrth i ragamcanion a gwybodaeth newydd ddod i law gan CLlLC. Yn ddiweddar, cynhaliodd yr Awdurdod adolygiad o'r cyllidebau presennol er mwyn nodi arbedion ac ailystyriodd ragdybiaethau cynllunio megis cyfraddau chwyddiant, codiadau cyflog, cyfraddau llog, costau tanwydd yn y dyfodol. Mae cyfres o adolygiadau mewnol i nodi opsiynau pellach ar gyfer arbedion gan gynnwys staff tân wrth gefn, defnyddio adeiladau a'u lleoliad a buddsoddiadau cyfalaf eraill hefyd yn mynd rhagddynt.

Mae'r Awdurdod yn gobeithio y bydd gwaith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, a sefydlwyd yn 2012 i gynyddu'r cydweithredu rhwng y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, yn nodi prosiectau lleihau costau posibl er mwyn helpu i ymdrin â diffygion yn y gyllideb yn y dyfodol.

## Gwneir cynnydd da i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol

Gwneuthum nifer o gynigion ar gyfer gwella yn fy adroddiadau blaenorol a cheir crynodeb o gynnydd yr Awdurdod wrth roi'r cynigion hyn ar waith yn Atodiad 1. Caiff cynigion ar gyfer gwella sydd eisoes wedi'u rhoi ar waith yn llawn, neu nad ydynt yn berthnasol mwyach, eu tynnu o'r rhestr hon fel rhan o'n diweddariad nesaf.

**Cynigion pellach ar gyfer gwella**

Caiff dau gynnig newydd ar gyfer gwella eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan yr Awdurdod o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Dangos yn glir sut mae gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi'u hystyried wrth bennu a monitro amcanion gwella ar gyfer 2014-15. |
| C2 | Atgyfnerthu adroddiadau monitro drwy:<br>• gynnwys mesurau perthnasol er mwyn rhoi darlun cytbwys o'r cynnydd ar gyfer pob amcan gwella;<br>• defnyddio meini prawf statws RAG cyson ymhob adroddiad er mwyn sicrhau bod y meini prawf statws 'goleuadau traffig' (RAG) yn haws i'w deall;<br>• sicrhau bod yr adroddiadau yn cynnwys sylwadau penodol o ran p'un a yw'r Awdurdod ar y trywydd cywir i gyflawni ei amcanion gwella ai peidio. |

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm ar gyfer yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu yn ystod 2013-14. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am sut rydym yn bwriadu targedu adnoddau yn ystod yr asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2013-14.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Awdurdod am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

COPI: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lisa Williams, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| C1 Parhau i roi cynigion blaenorol ar gyfer gwella ar waith, gan gynnwys: | |
| • gwneud y gweithlu'n fwy amrywiol; | Cynhaliwyd gweithgareddau allgymorth fel rhan o Ymgyrch Recriwtio Hydref 2012 i recriwtio diffoddwyr tân amser cyflawn. Fodd bynnag, ni fuont yn llwyddiannus ar y cyfan. Er y derbyniwyd nifer sylweddol o geisiadau gan bobl â nodweddion gwarchodedig, ni fu'r rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus. Mae'r Awdurdod wedi dadansoddi lle y bu unigolion yn aflwyddiannus yn y broses recriwtio ac mae wrthi'n ystyried beth y gellir ei wneud i ymdrin â hyn mewn ymgyrchoedd recriwtio yn y dyfodol. |
| • defnyddio proses Adolygu Datblygu Perfformiad (ADP) ar gyfer staff mewn lifrai a staff cymorth yn gyson; | Gwerthuswyd y broses ADP ddiwygiedig ar ôl cwblhau asesiadau gwanwyn 2011. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod angen adolygiad mwy sylfaenol o'r broses ADP ac mae'r adolygiad hwnnw yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.<br>Yn ogystal, cynhaliwyd hyfforddiant i reolwyr llinell cyn cwblhau adolygiadau gwanwyn 2012. |
| • atgyfnerthu amcanion gwella a mesurau perfformiad cysylltiedig a chyflwyno adroddiadau sy'n canolbwyntio fwy ar ganlyniadau, nodi effaith ei weithgareddau ar ei gymuned, a dangos yn glir sut mae'r Awdurdod yn perfformio ar hyn o bryd, ei dargedau a sut mae'n cymharu ag awdurdodau tân ac achub eraill. | Mae'r Awdurdod wedi gwneud cryn dipyn o waith i ddangos yn gliriach effaith ei weithgareddau ar ei gymuned a beth y mae'n bwriadu ei gyflawni drwy ei amcanion gwella.<br>Mae gan yr Awdurdod gyfres o 200 o fesurau a ddefnyddir ganddo i fonitro cynnydd cynlluniau busnes gwasanaeth. Mae wedi dewis rhai o'r mesurau hyn i'w defnyddio wrth gyflwyno adroddiadau chwarterol ar gynnydd yn erbyn yr amcanion gwella. Gwneir gwaith mireinio pellach yn ystod 2013-14 er mwyn nodi mesurau canlyniadau ar gyfer yr amcan ymgysylltu â'r gymuned. |
| C2 Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad Rheoli Gwybodaeth. | Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau rhagweithiol i ymdrin â'r holl faterion a nodwyd yn yr adroddiad, ac wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i flaenoriaethu'r materion ac ymdrin â hwy mewn modd graddol a rhesymegol.<br>Caiff cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu hwn ei fonitro'n rheolaidd gan yr uwch reolwyr ac ar hyn o bryd, mae ar y trywydd cywir.<br>Bwriedir cynnal gwaith dilynol pellach ar y cynigion hyn ar gyfer gwella yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C3 | Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad o'r defnydd o dechnoleg | Mae'r Awdurdod hanner ffordd drwy sawl prosiect technegol strategol ar hyn o bryd, gan gynnwys prosiect i ddatblygu gweinwyr rhithwir, 'mynediad o bell i bawb', cydweithredu ag Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar wasanaethau ystafell gefn pwysig, trosglwyddo i'r PSBA a chydweithrediad ffynhonnell agored gydag Awdurdod Tân ac Achub Gorllewin Canolbarth Lloegr ar systemau gwybodaeth gweithredol. |
| C4 | Mynd i'r afael â'r materion o ran cywirdeb a chyflawnder data sy'n deillio o'n harchwiliad o wybodaeth am berfformiad, yn benodol cofnodi marwolaethau oherwydd tân, y ffordd yr ymdrinnir â 'digwyddiadau dros y ffin' a chydymffurfiaeth ag amserlenni a chanllawiau Llywodraeth Cymru. | Rydym yn parhau i brofi'r trefniadau newydd ar gyfer dilysu a chofnodi marwolaethau oherwydd tân a gyflwynwyd ar gyfer 2012-13 fel rhan o'n gwaith i adolygu ansawdd data. |
| C5 | Parhau i ddatblygu prosesau corfforaethol er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd yn arbennig:<br>• nodi, diffinio a blaenoriaethu pa fath o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n hanfodol i'r Awdurdod, ei bartneriaid a'r cyhoedd a wasanaethir ganddo;<br>• datblygu dull mwy strategol, cydgysylltiedig a chynlluniedig o ymgysylltu â'r cyhoedd - er mwyn nodi meysydd, materion a phynciau sy'n peri risg; canfod yr adnoddau angenrheidiol; lleihau nifer yr achosion o ddyblygu gwaith; sicrhau'r effaith a'r canlyniadau mwyaf;<br>• datblygu ffyrdd o fonitro, defnyddio a gwerthuso canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach a hysbysu'r cyhoedd am sut mae ei fewnbwn wedi dylanwadu ar yr hyn a wna'r Awdurdod; | Caiff hyn ei ddatblygu fel rhan o amcan gwella dau ar gyfer 2013-14. Caiff sgiliau eu hatgyfnerthu yn y maes hwn a chaiff polisïau a mesurau canlyniadau newydd eu mireinio. |

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| | • ymestyn y strategaeth gyfathrebu gyfredol i gynnwys gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n briodol ac wedi'i gynllunio ac sy'n cyd-fynd ag amcanion gwella a blaenoriaethau allweddol yr Awdurdod;<br>• sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn dod yn ymwybodol o'r amcanion gwella diwygiedig y cytunwyd arnynt ym mis Gorffennaf 2012. | |
| C6 | Mae pedwar maes allweddol lle y dylid rhoi mwy o bwyslais ar adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn sicrhau:<br>• bod y staff yn cael eu cynnwys yn fwy ar draws yr Awdurdod;<br>• bod mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned;<br>• y gwneir cymhariaeth ddigonol o berfformiad ag awdurdodau gwella eraill;<br>• y caiff y trefniadau Llywodraethu eu hystyried yn fwy mewn perthynas â phartneriaethau a gwaith comisiynu. | |
| C7 | Byddai paratoi crynodeb er mwyn darparu diweddariad clir a chryno i'r cyhoedd yn helpu'r Awdurdod i esbonio ei gyflawniadau a'i heriau yn y dyfodol. Dylai hyn fod ar gael yn eang a dylai gyfeirio at ffynonellau gwybodaeth bellach. | Gwneir gwaith dilynol yn hyn o beth yn ddiweddarach yn 2013 fel rhan o'r gwaith asesu perfformiad. |